OFFERYNNAU STATUDOL CYMRU

# 2014 No. 3278

## Rheoliadau Tenantiaethau Diogel (Sail Absoliwt ar gyfer Meddiannu am Ymddygiad Gwrthgymdeithasol) (Y Weithdrefn Adolygu) (Cymru) 2014

**Enwi, cychwyn, cymhwyso a dehongli**

**1.**—(1) Enw'r Rheoliadau hyn yw Rheoliadau Tenantiaethau Diogel (Sail Absoliwt ar gyfer Meddiannu am Ymddygiad Gwrthgymdeithasol) (Y Weithdrefn Adolygu) (Cymru) 2014, a deuant i rym ar 12 Ionawr 2015.

(2) Mae'r Rheoliadau hyn yn gymwys o ran tai annedd yng Nghymru.

(3) Yn y Rheoliadau hyn—

ystyr "adolygiad" ("*review*") yw adolygiad o dan adran 85ZA o'r Ddeddf (adolygu penderfyniad i geisio meddiannu ar sail absoliwt am ymddygiad gwrthgymdeithasol);

ystyr "cais" ("*application*") yw'r cais ysgrifenedig am adolygiad;

ystyr "ceisydd" ("*applicant*") yw tenant sydd wedi gwneud cais am adolygiad;

ystyr "diwrnod busnes" ("*business day*") yw unrhyw ddiwrnod nad yw'n ddydd Sadwrn, yn ddydd Sul, yn Ddydd Nadolig, yn Ddydd Gwener y Groglith nac yn ddiwrnod sy'n ŵyl y banc yng Nghymru o dan Ddeddf Bancio a Thrafodion Ariannol 1971(**1**);

ystyr "y Ddeddf" ("*the Act*") yw Deddf Tai 1985;

ystyr "penderfyniad gwreiddiol" ("*original decision*") yw penderfyniad landlord i geisio gorchymyn meddiannu tŷ annedd o dan adran 84A o'r Ddeddf(**2**) (sail absoliwt ar gyfer meddiannu am ymddygiad gwrthgymdeithasol).

(**1**) 1971 p. 80.
(**2**) Mewnosodwyd adran 84A gan adran 94(1) o Ddeddf Ymddygiad Gwrthgymdeithasol, Troseddu a Phlismona 2014 (p. 12).